Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfleoedd o ran Iawndal a Lliniaru ym maes Cydsyniad Morol

Adroddiad Crynodeb yn adolygu’r arferion presennol ynghylch lliniaru ac iawndal ym maes datblygu morol gyda phwyslais ar ynni adnewyddadwy morol.

## Rhagair

Wrth roi caniatâd ar ddatblygiadau morol, mae gofyniad statudol, gan gynnwys fel rhan o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, i ystyried a rheoli effeithiau posibl ar fioamrywiaeth forol, yn enwedig o fewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA). Mae gan Gymru nifer o safleoedd o'r fath sy'n adlewyrchu ansawdd uchel yr amgylchedd naturiol.

Mewn rhai achosion, lle na ellir osgoi neu liniaru effeithiau andwyol ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn ddigonol, efallai y bydd angen cydbwyso er mwyn i brosiect fynd rhagddo.

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu gofynion cydbwyso sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac yn cyflwyno gwybodaeth gyfredol a dulliau o sicrhau cydbwysedd morol.

Bwriedir iddo helpu ein dealltwriaeth o gyfleoedd i gymhwyso gofynion cydbwyso sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn ymarferol, yn enwedig o ran datblygu ynni adnewyddadwy morol.

Mae'n adroddiad i Lywodraeth Cymru, nid yw'n cynrychioli barn Llywodraeth Cymru, a dylid ei ystyried yn unol â hynny.

## Crynodeb

Prif amcanion yr astudiaeth hon oedd:

- Adolygu'r ystod o fesurau lliniaru morol a chydbwyso sy'n ymarferol ac sydd wedi'u sicrhau (neu eu hystyried), ynghyd ag unrhyw arfer da, gyda'r nod o gyflawni mesurau effeithiol i gynnal (neu hyd yn oed wella) nifer yr adar, pysgod a mamaliaid ac ansawdd y cynefinoedd morol y maent yn dibynnu arnynt o fewn ffiniau moroedd Cymru; ac
- Ystyried, ar lefel uchel, unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chymhwyso mesurau lliniaru a chydbwyso newydd a'r cymhwyso sy'n gysylltiedig â hynny mewn cydsynio morol.

Cafodd y prosiect ei lywio gan adolygiadau pen desg, ymgysylltu â rhanddeiliaid a phrofiad ehangach tîm y prosiect.

Mae ystod eang o fesurau lliniaru wedi'u defnyddio hyd yma ar gyfer y pedwar grŵp derbynyddion ecoleg forol allweddol (cynefinoedd morol, adar, pysgod a mamaliaid). Mae'r rhain wedi'u cynnal (neu eu hystyried) i sicrhau cydymffurfiaeth ag ystod eang o sbardunau polisi a deddfwriaeth, yn ogystal â chefnogi datblygu cynaliadwy yn nyfroedd Cymru. Darperir trosolwg o fesurau o'r fath, ynghyd â dealltwriaeth o'u heffeithiolrwydd cymharol fel rhan o'r hyn y gellir ei gyflawni yn y prosiect hwn. Mae hwn yn adnodd defnyddiol i lywio asesiadau amgylcheddol ac yn y pen draw y broses gydsynio.

Mae'r hierarchaeth liniaru yn diffinio proses ddilynol y dylid ei mabwysiadu i osgoi, lliniaru a gwneud yn iawn am effeithiau ecolegol negyddol, gyda chydbwyso yn cael ei ddehongli'n fawr fel mesur pan fetho popeth arall. Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried mesurau lliniaru o ddechrau datblygiad posibl a gellir eu defnyddio drwy gydol pob cam o gylch oes y prosiect.Mae'r ddealltwriaeth benodol o ofynion cydbwyso’n cael ei llywio'n fawr gan y

sbardun deddfwriaethol neu bolisi sylfaenol. Mae'r holl broses o sicrhau a chytuno ar fesurau cydbwyso yn ystyried nifer fawr o ffactorau, ac mae canllawiau sylweddol, cyfraith achosion a chynseiliau y gellir eu defnyddio i lywio'r gofynion hyn. Hyd yma, mae enghreifftiau penodol mewn perthynas â chydbwyso yn yr amgylchedd morol wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i gynefinoedd rhynglanwol, adar a physgod. Fodd bynnag, rhoddir mwy o ystyriaeth i fesurau cydbwyso mwy newydd ar gyfer y derbynyddion hyn a mamaliaid môr.

Mae nifer o gymhlethdodau o ran diffinio a sicrhau pecynnau lliniaru a chydbwyso. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, dod i gytundeb ar becynnau cydbwyso, darparu tebyg am debyg, sicrwydd o effeithiolrwydd, ystyriaethau amseru a chostau. Mae nifer o elfennau ymarferol allweddol hefyd a allai ddylanwadu ar gyflawni mesurau cydbwyso yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, y gofyniad i gael caniatâd ar wahân i weithredu'r mesurau, gorgyffwrdd â'r cyfundrefnau cynllunio daearol a morol a chysoni amseriad yr effeithiau posibl a'r gallu i gyflawni'r mesurau cydbwyso gofynnol. Nid yw'n anghyffredin ychwaith i gynlluniau o'r fath ddod ar draws gwrthwynebiadau gan randdeiliaid lleol, ac i nifer o faterion sy'n benodol i safleoedd arafu'r broses weithredu. Mae darparu nifer o fesurau cydbwyso hefyd wedi bod yn ddibynnol ar argaeledd tir addas (y gall fod cryn gystadleuaeth amdano).

Yn gyffredinol, mae'r graddau y mae amcanion cydbwyso yn cael eu cyflawni yn cael eu hadolygu'n rheolaidd drwy fonitro, gyda chyfnodau adolygu mwy ffurfiol fel arfer o tua 5 i 10 mlynedd. Ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd cydbwyso’r DU sydd ag amcanion cydbwyso penodol, mae hefyd yn ansicr sut y caiff y safleoedd hyn eu 'cymeradwyo' ac y bernir bod y cynefin wedi'i gydbwyso'n dderbyniol am yr hyn a gollwyd. Mae hyd y mathau hyn o gytundebau hefyd yn cyflwyno ansicrwydd gan y gall datblygwr fynd yn fethdalwr dros gyfnod o'r fath. Felly, mae mecanwaith i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chyflawni yn y tymor hwy (fel sy'n ofynnol gan nifer o sbardunau deddfwriaethol) yn bwysig.

Yn gyffredinol, awgrymodd rhanddeiliaid ei bod yn ofynnol cael mwy o arweiniad ac eglurder ar yr holl broses o gytuno ar ofynion lliniaru a chydbwyso ar gyfer prosiectau unigol. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cynnwys pob cam yn y broses o ddeall yr effeithiau andwyol cychwynnol, nodi a chytuno ar y mesurau priodol, pennu amcanion ac yn y pen draw sut y dangosir cydymffurfiaeth. Yn ymarferol, byddai angen i unrhyw ganllawiau newydd adeiladu ar y canllawiau presennol a gallent fod yn anodd eu cyflawni o ystyried cymhlethdodau heriau sy'n ymwneud â safleoedd a phrosiectau penodol. Byddai angen cynllunio canllawiau o'r fath hefyd i ddiwallu anghenion datblygwyr, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid ehangach.

Fel yr amlygwyd uchod, mae nifer o fesurau lliniaru, cydbwyso a gwella posibl y gellir eu cymhwyso ar gyfer derbynyddion ecolegol morol. Mae'n bwysig bod y sylfaen dystiolaeth yn cael ei chynnal a'i datblygu er mwyn deall yn well y lefelau o sicrwydd y gellir eu rhagdybio o ran y tebygolrwydd y cânt eu cymhwyso'n llwyddiannus. Yn yr un modd, mae'n bwysig deall effeithiau amgylcheddol technolegau newydd a thechnolegau sy'n datblygu yn ogystal â chynyddu graddfeydd prosiectau.

Mae gofyniad parhaus i ddeall ehangder llawn y cyfleoedd lliniaru a chydbwyso a allai fod yn berthnasol i'r broses cydsynio morol, ac y gellir eu cynnwys yn y broses honno. Mae mwy o ymchwil hefyd yn ofynnol, ac yn y pen draw penderfyniadau polisi, mewn perthynas â derbynioldeb cyffredinol, cydymffurfiaeth gyfreithiol a chymhwyso opsiynau lliniaru/cydbwyso yn ymarferol ac unrhyw atebion amgen. Dylid hefyd ystyried dull mwy strategol a chyfannol o ddarparu gwelliannau lliniaru, cydbwyso ac amgylcheddol.

Mae’r adroddiad llawn ar gael yn Saesneg yn unig.